**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ` EOC 03-02(p6)**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 24 Ebrill 2002 |
| Amser: | 10.00 |
| Lleoliad | Ystafell Pwyllgor 3&4 |
| Teitl: | Penodiadau Cyhoeddus - y drefn ar gyfer rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus |

Diben

Diben y papur hwn yw rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried a chynnig sylwadau ar yr awgrym y dylid cynnwys polisi ar 'adborth i ymgeiswyr' yn y Cod Ymarfer a rhoi ystyriaeth bellach i'r mater yn y cynllun ar gyfer rhoi cydraddoldeb yn y brif ffrwd wrth wneud penodiadau cyhoeddus. Caiff y Pwyllgor gyfle i gynnig sylwadau cyn i Weinidogion a'r Cabinet roi ystyriaeth bellach i'r mater.

Crynodeb

Mae'r paragraff ychwanegol ar adborth - sydd ar gael yn Atodiad A - yn ymrwymo'r Cynulliad i gynnig adborth i ymgeiswyr wedi cyfweliadau.

Yr awgrym yw fod mwy o waith yn cael ei wneud yn y maes hwn yng nghyd-destun y cynllun ar gyfer rhoi cydraddoldeb yn y brif ffrwd wrth wneud penodiadau cyhoeddus. Mae arbenigwyr adnoddau dynol Uned Benodiadau'r GIG eisoes yn cynnig adborth i ymgeiswyr am Swyddi Cyhoeddus yn y GIG ac maen nhw'n barod i'n cynghori/cynorthwyo â'r gwaith hwn.

Materion i'w Hystyried

Mae'r polisi a amlinellir yn adlewyrchu cyngor Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Amseru

Gofynnodd y Cadeirydd am y papur hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 6 Mawrth.

Camau i'r Pwyllgor eu Cymryd

Cynnig sylwadau i'r Cadeirydd ar y drefn ar gyfer rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus.

Uned Penodiadau Cyhoeddus Ebrill 2002